

Crynodeb Gwirio Ansawdd Tŷ Gwyn Hall

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Awst 2020

Dyddiad cyhoeddi: 09 Medi 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wriiad ansawdd o bell o Tŷ Gwyn Hall yn y Fenni fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Tŷ Gwyn Hall yn rhan o Grŵp Gofal Iechyd Elysium.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwiriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Chyfarwyddwr yr Ysbyty (y Rheolwr Cofrestredig) ar 12 Awst 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut rydych yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y cleifion ar yr adeg hon? Pa newidiadau, os o gwbl, a wnaed i'r amgylchedd ffisegol, trefniadau ar y ward a gallu'r cleifion i fanteisio ar gyfnodau o absenoldeb o ganlyniad i COVID-19?
- Sut mae'r risg o haint yn cael ei hasesu a'i rheoli i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel?
- O ystyried effaith COVID-19, sut rydych yn cyflawni eich dyletswydd gofal mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a sut mae hawliau'r cleifion yn cael eu diogelu?
- Sut rydych yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen?

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19; pa newidiadau mae wedi'u gwneud i sicrhau y gall barhau i ddarparu

gwasanaeth diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gwnaethom adolygu polisïau allweddol, gan gynnwys y defnydd o gyfarpar diogelu personol (PPE).

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd y gwasanaeth wedi ymateb i heriau COVID-19 mewn modd amserol. Gwnaed newidiadau ar ddechrau'r pandemig, gan gynnwys llety dynodedig ar gyfer achosion a amheuyd ac a gadarnhawyd o COVID-19, a rhoi'r gorau i ryddhau cleifion o'r ysbyty dros dro dan o dan Adran 17¹ a gadael i bobl ymweld â'r gwasanaeth.

Roedd y gwasanaeth wedi trafod goblygiadau'r pandemig â'r cleifion, eu teuluoedd a'u ffrindiau, a oedd yn cynnwys cyswllt rheolaidd naill ai'n bersonol neu drwy e-bost. Roedd yn gadarnhaol nodi bod pwyslais wedi'i roi ar fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â COVID-19 drwy gydweithio â'r cleifion a bod camau wedi'u cymryd i helpu'r cleifion i ddeall y newidiadau a'r effeithiau sydd wedi deillio o COVID-19.

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu da ar waith hefyd. Disgrifiwyd amrywiaeth o gyfarfodydd a galwadau dyddiol, wythnosol a misol ar lefel grŵp (Elysium Healthcare) a lefel safle lleol, gyda rhai o'r cyfarfodydd hyn wedi'u cynnal mewn ymateb uniongyrchol i COVID-19. Rhoddodd hyn sicrwydd inni fod y rheolwyr yn goruchwyllo'r materion sy'n effeithio ar y gwasanaeth yn briodol.

Nodir agweddau eraill ar drefniadau COVID-19 yn yr adrannau isod.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Gwnaethom edrych ar y Cynllun Rheoli ar gyfer COVID-19 a luniwyd gan y gwasanaeth a nifer o ddogfennau ac asesiadau risg eraill. Yn sgil natur ddatblygol COVID-19, byddem yn argymhell bod y gwasanaeth yn achub ar y cyfle hwn i adolygu ei Gynllun Rheoli ar gyfer COVID-19 yn y ffyrdd canlynol:

- Sicrhau bod y ddogfen yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n llawn yn sgil canllawiau diweddaraf y llywodraeth a'r canllawiau proffesiynol diweddaraf, gan gynnwys profi cleifion a staff sy'n dangos unrhyw symptomau o COVID-19
- Sicrhau bod fersiynau'r ddogfen yn cael eu rheoli gyda thabl ar flaen y ddogfen sy'n crynhoi unrhyw newidiadau.

¹ Mae Adran 17 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn caniatáu i gleifion a gedwir adael yr ysbyty lle maent yn cael eu cadw dros dro. Cytunir ar hyn at ddiben ac am gyfnod diffiniedig a derbynnir ei fod yn rhan bwysig o gynllun triniaeth claf.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried y ffordd y mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal er mwyn ei gadw mor ddiogel â phosibl i'r cleifion, y staff ac ymwelwyr. Edrychwyd ar asesiadau risg diweddar, adolygiadau o ddigwyddiadau a'r defnydd o ddulliau atal yn gorfforol ac arwahanu. Hefyd, holwyd y lleoliad am y newidiadau y mae wedi'u gwneud er mwyn sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn y gofal a'r driniaeth i ddiwallu eu hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaed newidiadau i'r amgylchedd yn sgil COVID-19, a oedd yn cynnwys addasu anecs tri gwely yn llety ynysu ar gyfer achosion a amheuwyd ac a gadarnhawyd o COVID-19, a defnyddio Tŷ Pentwyn ar gyfer cleifion lle roedd y gwasanaeth wedi nodi bod angen iddynt gael eu gwarchod.

Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion, p'un a oeddent wedi cael llythyr gwarchod ai peidio, wedi cael eu hasesu'n unigol gan y clinigydd ar y safle ar ddechrau'r pandemig. Hefyd, dywedwyd wrthym fod tîm dynodedig o staff yn gweithio ar y ward gwarchod er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint ymhellach.

Roedd y mynedfeydd a'r allanfeydd wedi cael eu haddasu er mwyn sicrhau bod llif priodol o gleifion, ymwelwyr a staff i mewn ac allan o'r adeilad, ac i gefnogi canllawiau ar gyfarpar diogelu personol (PPE) ac atal a rheoli heintiau.

Roedd Caban Llesiant wedi cael ei sefydlu hefyd y tu allan i fynedfa'r gwasanaeth er mwyn darparu lle addas i'r staff storio PPE a chael gafael arno heb fod angen mynd i mewn i'r ysbyty.

Y tu mewn i'r gwasanaeth, cawsom wybod bod arwyddion a phosteri wedi'u harddangos i helpu i annog safonau atal a rheoli heintiau da a chadw pellter cymdeithasol o amgylch y lleoliad. Hefyd, nodwyd bod archwiliad o ansawdd yr amgylchedd wedi'i gynnal yn ddiweddar er mwyn helpu i sicrhau addasrwydd a diogelwch amgylchedd y ward.

Roedd prydau bwyd yn cael eu gweini ar ddwy adeg wahanol er mwyn helpu i reoli trefniadau cadw pellter cymdeithasol, gyda'r staff a'r cleifion yn bwyta ar wahân.

Hefyd, nodwyd newidiadau o ran lleihau maint pob cyfarfod, annog y staff i weithio gartref lle bynnag y bo modd a chael gwared ar gyfarpar swyddfa diangen er mwyn lleihau nifer y pwyntiau cyffwrdd.

Roedd tystiolaeth dda o ymgysylltu a chydweithio â'r cleifion er mwyn eu helpu i ymaddasu i'r pandemig, ond dywedwyd wrthym fod y pandemig a'i gyfyngiadau cysylltiedig wedi peri cryn rwystredigaeth i rai o'r cleifion. O ganlyniad, roedd hyn wedi arwain at gynnydd mewn

ymddygiadau heriol a digwyddiadau a gofnodwyd ar Skirrid View yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf.

Darparodd y gwasanaeth dystiolaeth i ddangos sut roedd wedi rheoli'r ymddygiadau hyn, gan gynnwys system ar alw 24 awr ar gyfer y Clinigydd Cyfrifol² a'r uwch-dîm rheoli. Nodwyd bod polisi lle y gall unrhyw Nyrs Gofrestredig roi arsylwadau cefnogol 1:1 ar waith yn sgil ymgynghori â chlinigydd ac y gellir cytuno ar geisiadau am staff ychwanegol â'r rheolwr ar alw.

Nodwyd bod yr holl ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u hadolygu ar lefel leol ac ar lefel grŵp (Elysium Healthcare). Mae hyn yn cynnwys adolygiad yng nghyfarfodydd briffio dyddiol y tîm clinigol lle y caiff digwyddiadau dros y 24 awr blaenorol eu hadolygu. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd wythnosol o'r uwch-dîm rheoli a chyfarfodydd Llywodraethu Clinigol misol wedi'u cynnal, a bod digwyddiadau wedi'u hadolygu'n fanwl yn y cyfarfodydd hyn er mwyn helpu i nodi themâu a rheoli gofynion staffio.

Eglurodd y gwasanaeth fod nifer y digwyddiadau yn lleihau bellach wrth i gyfyngiadau ar ymwelwyr a rhyddhau cleifion o'r ysbyty dros dro gael eu llacio'n ara bach. Gwelsom dystiolaeth o waith dadansoddi a chmau gweithredu mewn ymateb i ddigwyddiadau. Hefyd, gwnaethom edrych ar sampl ddiweddar o lefelau arsylwi ar gleifion a nodwyd bod nifer isel o arsylwadau 1:1 yn unol â'r dadansoddiad a roddwyd gan y gwasanaeth.

Ni nodwyd unrhyw welliannau

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried pa mor dda y mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint er mwyn helpu i gadw'r cleifion, ymwelwyr a'r staff yn ddiogel. Edrychwyd ar bolisiau rheoli heintiau, cyfraddau heintio ac asesiadau risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cafodd archwiliad atal a rheoli heintiau ei gynnal ddiwethaf ym mis Ionawr 2020 ar lefel grŵp gan Elysium Healthcare. Fodd bynnag, cynghorir y gwasanaeth i gynnal archwiliad pellach ar lefel grŵp oherwydd effaith COVID-19 ar arferion a gofynion atal a rheoli heintiau.

Er gwaethaf hyn, cawsom sicrwydd bod nifer o fesurau ychwanegol wedi'u rhoi ar waith ers dechrau'r pandemig. Yn eu plith roedd mwy o gyfarfodydd goruchwyllo gan reolwyr ac archwiliadau lleol o bob ward gan Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau. Roedd yn braf nodi bod y gwasanaeth yn rhoi pwyslais ar hapwiriadau gan uwch-aelodau o'r staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â safonau atal a rheoli heintiau.

² Dyma'r gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol sy'n gyfrifol am ofal a thriniaeth y cleifion a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Roedd y gwasanaeth wedi sicrhau bod yr ysbyty cyfan yn cael ei lanhau'n amlach ac roedd hefyd wedi rhoi amserlenni glanhau dwys ar waith ar gyfer ystafelloedd lle cafwyd achosion a amheuwyd o COVID-19. Gellid hefyd ddefnyddio contractwyr glanhau allanol os oedd angen.

Roedd y gwasanaeth hefyd wedi gosod gorsafoedd hylendid dwylo ar draws y safle. Nodwyd nad oedd unrhyw gleifion wedi cael asesiad risg mewn perthynas â'r gallu i gael gafael ar gel dwylo alcohol.

Dywedwyd wrthym fod argaeledd pob math o PPE yn dal i fod yn dda a bod gwiriadau stoc ddwywaith yr wythnos er mwyn sicrhau bod digon o gyflenwadau ar gael. Cadarnhaodd y gwasanaeth y byddai PPE priodol yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r risg o haint (e.e. wrth ofalu am glaf yr amheuwyd bod ganddo COVID-19).

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y gwasanaeth wedi gweithio gyda'r cleifion i'w helpu i ddeall y gofynion newydd o ran atal a rheoli heintiau. Lluniwyd cynlluniau rheoli gofal unigol ynghyd â rhestrau gwirio asesu risg / COVID-19 a gynhelir gan therapydd galwedigaethol gyda phob claf. Mae'r rhain yn helpu'r cleifion i ddeall pwysigrwydd hylendid dwylo da, y defnydd o fasnau, ac maent yn eu helpu i ddeall eu cyfrifoldebau personol dros ei gilydd.

Ni nodwyd unrhyw welliannau

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, ystyriodd AGIC y ffordd y mae'r lleoliad yn sicrhau bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion y cleifion, gyda mynediad i weithwyr iechyd meddwl proffesiynol ehangach pan fydd angen.

Hefyd, holwyd y lleoliad am y ffordd y mae, yn sgil effaith COVID-19, yn parhau i gyflawni ei ddyletswydd gofal o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac o ran diogelu hawliau'r cleifion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn ymfalchïo yn yr hyblygrwydd a ddangoswyd gan y staff mewn ymateb i heriau COVID-19. Nododd y gwasanaeth ei fod wedi cynnal ymarferion blaengynllunio ar ddechrau'r pandemig er mwyn asesu'r niferoedd staffio craidd roedd eu hangen i redeg y gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Yn ystod y pandemig, dywedwyd wrthym fod mwy o hyblygrwydd wedi bod am fod staff wedi gweithio oriau ychwanegol³ ac, ar adegau, ar draws rolau. Hefyd, dywedwyd wrthym fod uwch-reolwyr ar alw yn barod i weithio sifftiau ac yn gallu gwneud hynny pan fo angen.

³ Lle mae aelod o'r staff yn gweithio yn ei faes clinigol ond yn ychwanegol at y niferoedd staffio dynodedig ar gyfer y sifft honno.

Gwnaethom edrych ar y weithdrefn uwchgyfeirio a chawsom wybod ei bod wedi'i hategu gan adroddiad dyddiol a galwad wythnosol i Elysium Healthcare mewn ymateb i COVID-19, lle adolygwyd materion staffio.

Fel rhan o wiriad H1, gwnaethom hefyd edrych ar sampl ddiweddar o rotâu, taflenni dyrannu ac adroddiadau staffio diogel. Roedd y niferoedd staffio yn briodol ar gyfer nifer y cleifion, ac roedd gweithdrefnau digonol ar waith i ddatrys unrhyw faterion staffio.

Yn ystod y pandemig, dywedodd y gwasanaeth wrthym ei fod wedi ymdrechu i ddefnyddio staff asiantaeth cyn lleied â phosibl. Lle y gwelsom fod staff asiantaeth wedi'u defnyddio, dywedwyd wrthym fod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddefnyddio'r un aelodau o staff asiantaeth er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r cleifion a'r gweithdrefnau lleol. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y gwasanaeth lefel iach o staff banc ac y gwneir ymdrechion i gyfyngu ar nifer y staff banc sy'n gweithio ar draws wardiau.

Ar adeg gwiriad H1, roedd tair swydd wag ar gyfer Nyrsys Cofrestredig a chawsom wybod bod y broses recriwtio ar gyfer y swyddi hyn wedi dechrau eisoes. Bydd hyn yn helpu i atgyfnerthu'r cyflenwad o staff nyrsio yn y dyfodol.

O ran cefnogi hawliau'r cleifion, roedd yn gadarnhaol gweld tystiolaeth bod y cleifion wedi'u cynnwys ar gam cynnar o'r pandemig, er enghraifft wrth symud llety, a bod safbwyntiau a dymuniadau unigol wedi cael eu hystyried a'u rhoi ar waith gan y gwasanaeth.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn rhoi pwyslais ar gyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd dryloyw fel cam pwysig i'w helpu i ddeall y newidiadau i'r gwasanaeth, eu cyfrifoldebau personol a'r 'normal newydd' y tu allan. I gefnogi hyn, gwelsom dystiolaeth o Gyfarfodydd Cymunedol ac, ers dechrau'r pandemig, gyfarfodydd â chynrychiolwyr wardiau i sicrhau bod adborth yn cael ei roi o hyd a bod camau yn cael eu cymryd i weithredu arno. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn gweithredu polisi drws agored ar gyfer y cleifion a'u teuluoedd a'u ffrindiau, a gwelsom dystiolaeth o ymgysylltu â'r teuluoedd.

Yn sgil cyfyngiadau COVID-19 ar y gwasanaeth, penderfynwyd atal teuluoedd a gweithwyr proffesiynol rhag ymweld ag unigolion yn y gwasanaeth pan oedd y pandemig ar ei waethaf. Hefyd, cyfyngwyd ar ryddhau cleifion o'r ysbyty dros dro o dan Adran 17 ac yn anffurfiol, oni bai bod angen gwneud hynny ar fyrder am resymau clinigol. Roedd yn gadarnhaol nodi tystiolaeth o ymgysylltu â'r cleifion a'u teuluoedd a'u ffrindiau yn gynnar ac yn barhaus er mwyn helpu pawb i ddeall yr angen am y newidiadau hyn.

Yn ystod y cyfnod hwn, gallai'r cleifion ddefnyddio eu dyfeisiau symudol a'u llechi eu hunain, ac maent yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, gwnaeth y gwasanaeth hefyd ddarparu llechi i'r cleifion fel eu bod yn gallu parhau i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau eirioli.

Yn sgil hyn, roedd modd parhau i ddiwallu anghenion gofal y cleifion, er enghraifft drwy allu mynychu eu cyfarfodydd Adolygu Gofal Unigol yn electronig.

Roedd yn braf nodi bod y gwasanaeth wedi sefydlu 'siop gornel' i'r cleifion a bod ffrwythau a nwyddau ymolchi hefyd ar gael ar y safle mewn ymdrech i gynnig yr hyn y byddai'r cleifion wedi gallu cael gafael arno yn yr ardal leol fel arfer.

Dywedwyd wrthym fod cyfyngiadau wedi cael eu haddasu'n ofalus gan y gwasanaeth yn unol â chanllawiau iechyd y cyhoedd perthnasol. Dywedodd y gwasanaeth wrthym fod trefniadau rhyddhau o dan Adran 17 bellach yn cael eu cefnogi lle gall fod yn sicr bod y claf yn mynd i 'swigen' cartref briodol. I gefnogi hyn, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth wedi cyflwyno asesiad risg wedi'i ddiweddarau ar gyfer rhyddhau cleifion dros dro, ynghyd â pholisi a 'contract' cysylltiedig i'r cleifion a'u teuluoedd lynu wrthynt, cyn penderfynu a ellir rhyddhau claf.

Roedd ymweliadau â'r gwasanaeth wedi aildechrau hefyd mewn lle cyfarfod dynodedig, gan eu trefnu ymlaen llaw, yn amodol ar asesiad risg priodol. Gwnaethom gadarnhau bod disgwyl i bob ymwelydd wisgo PPE priodol a chadarnhaodd y gwasanaeth fod PPE yn cael ei ddarparu heb eithriad.

Roedd gwasanaethau eirioli⁴ yn dal i fod ar gael drwy gydol y pandemig, drwy alwadau ffôn a Skype i ddechrau, ond mae clinig galw heibio ar y safle yn cael ei gynnal eto er mwyn helpu i sicrhau bod y cleifion yn deall eu hawliau o dan y Ddeddf a'u bod yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Roedd ffigurau hyfforddiant gorfodol yn isel mewn rhai meysydd, yn enwedig Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, torri i ffwrdd a datrys gwrthdaro. Gwelsom hefyd fod cyfraddau cwblhau isel tebyg wedi'u nodi ar gyfer rhai o'r meysydd hyfforddiant hyn yn dilyn adolygiad gan y GIG ym mis Medi 2019.

Cydnabyddwn fod COVID-19 wedi gorfodi'r gwasanaeth i roi'r gorau i gynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig a bod y gwasanaeth wedi cymryd camau i flaenoriaethu hyfforddiant atal a rheoli heintiau ychwanegol yn lle hynny.

Fodd bynnag, gan fod yr hyfforddiant wedi'i nodi'n faes i roi sylw iddo'n flaenorol, rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod y meysydd hyfforddiant hyn bellach yn cael eu blaenoriaethu wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Dylai'r gwasanaeth hefyd ystyried unrhyw ddulliau hyfforddi amgen sydd ar gael yn y cyfamser.

⁴ Mae Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol yn helpu'r bobl i ddeall eu hawliau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a chymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal a'u triniaeth.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriadau, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Cynllun gwella

Lleoliad: Tŷ Gwyn Hall

Dyddiad y gweithgarwch: 12 Awst 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r gwasanaeth adolygu ei Gynllun Rheoli ar gyfer COVID-19 yn y ffyrdd canlynol: Sicrhau bod y ddogfen yn cael ei hadolygu a'i diwedddaru'n llawn yn sgil canllawiau diweddaraf y llywodraeth a'r canllawiau proffesiynol diweddaraf, gan gynnwys profi cleifion a staff yr amheuir bod ganddynt COVID-19	a9 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Caiff Cynllun Rheoli Tŷ Gwyn Hall ar gyfer COVID-19 ei adolygu a'i ddiwedddaru yn unol â Chanllawiau diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Elysium Healthcare. Caiff y Cynllun Rheoli ei adolygu ymhellach a, lle y bo angen, ei ddiwedddaru'n fisol neu'n amlach os oes angen. Caiff y Cynllun Rheoli ei adolygu fel eitem sefydlog ar yr agenda yn ein cyfarfod Llywodraethu Clinigol lleol misol.	Cyfarwyddwr yr Ysbyty	4 Medi 2020 4 Medi 2020 Dydd Mawrth olaf y mis 4 Medi 2020

	Sicrhau bod fersiynau'r ddogfen yn cael eu rheoli gyda thabl ar flaen y ddogfen sy'n crynhoi unrhyw newidiadau.		Rheolir fersiynau'r Cynllun Rheoli a chaiff tabl ei gynnwys ar flaen y ddogfen a fydd yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau pan wneir diweddariadau.		
2	Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod meysydd hyfforddiant, megis rheoli trais ac ymddygiad ymosodol, torri i ffwrdd a datrys gwrthdaro, yn cael eu blaenoriaethu wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Efallai y bydd y gwasanaeth am ystyried unrhyw drefniadau amgen sydd ar gael yn y cyfamser.	a20 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae'r arweinydd rhanbarthol ar gyfer Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig eisoes wedi trefnu hyfforddiant Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, Torri i Ffwrdd a Datrys Gwrthdaro a bydd yn helpu i sicrhau mwy o gydymffurfiaeth yn y meysydd hyn yn raddol. Mae'r cwrs wedi'i addasu yn unol â gofynion presennol COVID-19 fel bod llai o bobl mewn dosbarth a bod PPE yn cael ei ddefnyddio. Caiff cydymffurfiaeth o ran Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig, Torri i Ffwrdd a	Cyfarwyddwr yr Ysbyty Cyfarwyddwr yr Ysbyty	Dyddiadau Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn Therapiwtig: 9-11 Medi 2020 7-9 Hydref 2020 4-6 Tachwedd 2020 2-4 Rhagfyr 2020 Dydd Mawrth olaf y mis

			Datrys Gwrthdaro ei monitro yn ein cyfarfod Llywodraethu Clinigol misol.		
--	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Shaun Cooper - Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 27 Awst 2020